



Ysgol Pentreuchaf

145. Polisi Ymateb i Lais y Plentyn a Deallusrwydd Emosiynol

Nod

Sicrhau trefn effeithiol o 'Wrando ar Ddysgwyr' o fewn yr ysgol i sicrhau gwerth ychwanegol i ddatblygiad addysgol, emosiynol, cymdeithasol a datblygiad iechyd pob plentyn.

Amcanion

Sicrhau gweithdrefnau sy'n rhoi sylw i

- i) Godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd 'gwrando ar ddysgwyr'.
- ii) Sicrhau ymrwymiad i hyrwyddo cyfleon i blant ifanc i fynegi barn, pryderon a theimladau.
- iii) Datblygu galluoedd staff cyfan i wrando ar farn plant yn y broses o gynllunio a gwerthuso'r addysg a'r gofal sydd ar eu cyfer.
- iv) Datblygu diwylliant o wrando ar ddysgwyr o fewn y sefydliad.

Canllawiau

1. Mae'n ofynnol ymgorffori egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn holl waith yr ysgol a galluogi'r dysgwyr i gyfleu eu sylwadau yn eu dewis iaith. Yn ogystal, rhaid galluogi'r dysgwyr hynny nad yw Cymraeg na Saesneg yn famiaith iddynt, neu sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu eraill i fynegi eu safbwyntiau.

2. Mae angen sicrhau sylw priodol i

- gyfathrebu effeithiol
- trafod materion sensitif
- gyfathrebu â dysgwyr sy'n agored i niwed
- blant ifanc iawn
- blant y mae ganddynt ADY a/neu anableddau
- ddysgwyr y mae ganddynt drafferthion iechyd meddwl neu gorfforol
- ferched beichiog a rhieni yn eu harddegau
- blant a gaiff eu diarddel o'r ysgol
- blant y gofelir amdanynt
- ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol
- deithwyr
- ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Gweler y polisiau perthnasol am fwy o arweiniad.

3. Sicrhau ethos sy'n hyrwyddo parch pobl at ei gilydd a lle mae plant yn gwybod bod gwrandawriad a pharch iddynt a'u bod yn cael eu cymryd o ddifrif,

4. Cynllunio amrywiaeth o ddulliau y gellir ymgynghori â phlant a gwrando arnynt, a mynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt – e.e. amser cylch, blychau siarad, pwyllgorau, trafodaethau/cynghorau dosbarth, cyngor ysgol, holiaduron a.y.y.b.

5. Defnyddio gwahanol ddulliau o hyrwyddo gwrando, cyfathrebu a sgiliau personol a chymdeithasol fel eu bod yn rhan o fywyd bob dydd yr ysgol e.e. amser cylch, datblygu sgiliau personol a chymdeithasol mewn ABaCh a gweddiill y cwricwlwm, gwaith grŵp, pwyslais ar ddatrys problemau, gwneud penderfyniadau a chyd-drafod.

6. Trefnu prosiectau sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yng nghymuned eu hysgol a thu hwnt – e.e. Ysgol Iach, Ysgol Werdd, Diogelwch y Ffyrdd, Masnach Deg, perfformiadau, y Cyngor Ysgol;

7. Cynnwys disgyblion yn y gwaith o adolygu a newid prif bolisiâu ac arferion yr ysgol - e.e. polisi gwrth fwlio ac ymddygiad, addysgu a dysgu.

8. Gwneud disgyblion yn ymwybodol o'u hawliau a manteision cymryd rhan

9. Sicrhau cysylltiadau gweithredol gyda'r gymuned leol, a chyfranogaeth ehangach.

Mae angen talu sylw i Ddeallusrwydd Emosiynol plant

Mae'n bwysig helpu'r plant i ddod yn ymwybodol o'u hemosiynau eu hunain ac yn dod yn fwyfwy abl i'w rheoli. Mae hefyd angen iddynt sylweddoli pwysigrwydd bod yn sensitif i emosiynau pobl eraill a gallu ymateb iddynt.

Manteisio i'r eithaf ar ddysgu – APADGOS 2008

Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar weithgareddau syn rhoi cyfle i blentyn

- i) Feddwl agwneud penderfyniadau
- ii) Drin tystiolaeth yn feirniadol
- iii) Gyrraedd ei botensial o safbwynt lefelau'r CC
- iv) Ddysgu sut i ddysgu
- v) Roi lle canolog i elfennau Asesu ar gyfer Dysgu (Asesu Ffurfiannol) (sydd â rôl bwysig mewn gwella **human ddelwedd** plentyn, sydd wedyn yn allweddol i ddatblygiad ei ddeallusrwydd emosiynol
- vi) Hunan asesu
- vii) Ddatblygu cwestiynu (sy'n rhoi lle i gynnwys pawb)
- viii) Feithrin trafodaeth
- ix) Ddatrys problemau

Hunanymwybyddiaeth– y gallu i ddehongli eu hemosiynau eu hunain ac adnabod eu heffaith tra'n defnyddio teimlad ym mên esgyrn i wneud penderfyniadau.

Self awareness – the ability to read one's emotions and recognize their impact whilst using gut feelings to guide decisions

Hunan reolaeth– yn cynnwys rheoli emosiynau a'r tuedd i fod yn fyrbwyll ac addasu i amgylchiadau sy'n newid.

Self management – involves controlling one's emotions and impulses and adapting to changing circumstances

Ymwybyddiaeth Gymdeithasol – y gallu i synhwyro, deall ac ymateb i emosiynau pobl eraill tra'n amgyffred rhwydweithiau cymdeithasol

Social awareness – the ability to sense, understand and react to others' emotions whilst comprehending social networks

Rheoli perthynas– y gallu i ysbrydoli,, dylanwadu a datblygu eraill tra'n rheoli gwrthdaro

Relationship management – the ability to inspire, influence, and develop others whilst managing conflict

Mae erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn datgan – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn am faterion sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried o ddifrif.

Casgliad

Trwy wrando'n ofalus ar blant bob amser (nid eu 'clywed' yn unig), trwy roi'r statws priodol i'r blychau siarad a'r Cyngor Ysgol a thrwy ddadansoddiad manwl o'r holiaduron blynyddol y mae pob plentyn o B1 i B6 yn eu cwblhau, ceisiwn sicrhau ein bod yn cyflawni'r nod o wrando ar ein plant.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, **Cadeirydd y Llywodraethwyr**

Dyddiad: _____